**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

01 Gorffennaf 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

**Llythyr dilynol i'r cyfarfod ar 26 Mehefin 2024**

Diolch am ddod i'n sesiwn graffu gyffredinol ar waith y gweinidog a'r sesiwn ar yr Economi Werdd ar 26 Mehefin. Oherwydd cyfyngiadau amser, roedd nifer o gwestiynau na chawsom gyfle i'w trafod yn y sesiwn, a nodir isod.

## Porthladdoedd rhydd

> Mae eich papur yn tynnu sylw at yr oedi y mae Etholiad Cyffredinol y DU wedi ei achosi i'r broses o gymeradwyo'r achosion busnes amlinellol ar gyfer dau borthladd rhydd Cymru ac o ran dynodi safleoedd treth. Beth yw eich amserlenni o ran gallu gwneud cyhoeddiadau ar y meysydd hyn gyda Llywodraeth nesaf y DU?
>
> Roedd eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi y byddai angen cymeradwyaeth Gweinidog ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan fod materion sylweddol i'w datrys. A yw'r materion hyn bellach wedi cael eu datrys i'ch boddhad, ac a ydych wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol?

Hefyd, fe groesawodd yr Aelodau eich cynnig i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi cyngor ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amnewid a gwella diogeledd bwyd o amgylch cynhyrchion sylfaenol, ac i ddarparu mwy o wybodaeth am y rhesymau dros ohirio trafodaethau bargen fasnach â Chanada a Mecsico. Croesawodd yr Aelodau hefyd eich ymrwymiad i gyhoeddi papur Llywodraeth Cymru ar ei hymagwedd at bolisi masnach a'r amcanion polisi trawsbynciol ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb ysgrifenedig i'r pwyntiau hyn.

Cofion cynnes

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
Welsh Parliament